

AMODAU DEFNYDD CYFFREDINOL AR GYFER Y PORTH HAWLIADAU BYCHAIN DEFNYDDWYR PROFFESIYNOL

Mae'r amodau defnydd hyn yn nodi'r telerau ac amodau sy'n gymwys i Ddefnyddiwr Proffesiynol sy'n cael mynediad i, ac yn defnyddio, y Porth a ddarperir gan Official Injury Claim Limited ("**OICL**"), cwmni a ymgorfforwyd yng Nghymru a Lloegr, â'r rhif cwmni 11752037 (yr "**Amodau Defnydd Cyffredinol**").

Drwy gwblhau Cofrestru (fel y'i diffinnir isod), mae'r Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol yn cadarnhau bod ganddo awdurdod i rwymo'r Defnyddiwr Proffesiynol yn gyfreithiol ac yn cydnabod ac yn cytuno ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol fod yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn rhwymo'r Defnyddiwr Proffesiynol a'r holl Ddefnyddwyr Awdurdodedig yn gyfreithiol.

Mae OICL yn cadw'r hawl i amrywio a diwygio'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn cael eu cyhoeddi ar Wefan OICL a chymerir bod parhad yn y defnydd o'r Porth gan y Defnyddiwr Proffesiynol yn gytundeb gan y Defnyddiwr Proffesiynol i dderbyn y fersiwn gyffredol o'r Amodau Defnydd Cyffredinol.

1. Diffiniadau

1.1 Yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn:

ystyr " A2A "	yw'r dull o anfon negeseuon i systemau'r Porth drwy gyfrwng XML neu gyfathrebiad arall o un rhaglen feddalwedd i un arall;
mae i " Cais am Gludadwyedd "	yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 7.31;
mae i " Cofrestru "	yr ystyr a roddir yng Nghymal 4.1;
ystyr " Corff Rheoleiddio "	yw unrhyw awdurdod neu reoleiddiwr llywodraethol, statudol, rheoleiddiol neu orfodi cymwys sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a gyflawnir gan unrhyw barti neu unrhyw ran, is-adran neu elfen ohono mewn perthynas â'r gweithgareddau a gyflawnir yn unol â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn;
ystyr " Cyfraith Gymwysadwy "	yw'r holl reolau, rheoliadau, offerynnau a darpariaethau statudol cymwysadwy sydd mewn grym o bryd i'w gilydd gan gynnwys y rheolau cyfreithiol rwymol, codau ymarfer, gofynion ymarfer a thelerau achredu a bennir gan unrhyw Gorff Rheoleiddio y mae parti yn ddarostyngedig iddo o bryd i'w gilydd;
ystyr " Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig "	yw'r cyfrif a sefydlwyd gan OICL ar gyfer Defnyddiwr Awdurdodedig ar gais gan Ddefnyddiwr Gweinyddol, y gellir ei gyfeirio at ei ID Defnyddiwr Awdurdodedig, er mwyn caniatáu i Ddefnyddiwr Awdurdodedig gael mynediad i'r adran o'r Porth a ddiogelir gan gyfrinair;

ystyr “ Cynrychiolydd ”	<p>yw cynrychiolydd a reoleiddir gan Gymdeithas y Cyfreithwyr, Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol neu Gyngor Cyffredinol y Bar, neu gynrychiolydd awdurdodedig a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, sydd:</p> <p>(a) i'r Hawlydd, yn darparu cyngor am gynnwys yr Hawliad neu'n cymryd camau yn yr Hawliad ar ran yr Hawlydd ac ar sail ei gyfarwyddiadau, heblaw drwy Ganolfan Gymorth y Porth; neu</p> <p>(b) i'r Digolledwr, yn trafod yr Hawliad ar ei ran;</p>
ystyr “ Cyswllt ”	yw unrhyw barti sy'n ymwneud â darparu Gwasanaethau gan neu ar ran OICL o dan yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn;
ystyr “ Data ”	yw data (neu unrhyw ran ohonynt) a ddarperir i Chi a'ch Defnyddwyr Awdurdodedig gan OICL drwy'r Porth neu fel arall mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau;
ystyr “ Data Hawliadau ”	yw unrhyw wybodaeth am Hawliad a gyflwynir drwy'r Porth gan y Defnyddiwr Proffesiynol drwy'r cais porwr ar y we neu drwy A2A (fel y bo'n berthnasol) o bryd i'w gilydd (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, unrhyw Ddata Personol am yr Hawlydd);
bydd i “ Data Personol ”	yr ystyr a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;
mae i “ Data Porth Dienw ”	yr ystyr a roddir iddynt yng Nghymal 9.3;
ystyr “ Deddfwriaeth Diogelu Data ”	yw'r holl gyfreithiau preifatrwydd a diogelu data sy'n gymwysadwy gan gynnwys y GDPR ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth gweithredu genedlaethol gymwysadwy yng Nghymru a Lloegr (yn cynnwys Deddf Diogelu Data 2018) sy'n ymwneud â Phrosesu Data Personol (neu os bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, yr holl ddeddfwriaeth gyfatebol a wnaed yn y DU mewn perthynas â diogelu Data Personol) a phreifatrwydd cyfathrebiadau electronig, yn cynnwys y Gyfarwyddeb Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (2002/58/EC) a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (OS 2003/2426);
ystyr “ Defnyddiwr Awdurdodedig ”	yw'r Defnyddiwr/Defnyddwyr Gweinyddol a'r cyflogeion neu asiantau hynny i'r Defnyddiwr Proffesiynol sydd wedi'u hawdurdodi gan Ddefnyddiwr Gweinyddol i gael mynediad i'r Porth ar Eich rhan, gan ddefnyddio ID Defnyddiwr Awdurdodedig a'r Manylion Mynediad yn unol â Chymal 4.6;
ystyr “ Defnyddiwr/Defnyddwyr Gweinyddol ”	yw uwch gyflogai'r Defnyddiwr Proffesiynol sydd wedi'i awdurdodi gan y Defnyddiwr Proffesiynol i

ymrwymo i'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol ac a fydd yn gyfrifol o ddydd i ddydd am weinyddu Manylion Mynediad y Defnyddwyr Awdurdodedig, Cyfrifon y Defnyddwyr Awdurdodedig ac IDs y Defnyddwyr Awdurdodedig ac am gynefino'r Defnyddwyr Awdurdodedig, ynghyd ag unrhyw uwch gyflogeion eraill y Defnyddiwr Proffesiynol sydd wedyn yn cael eu hawdurdodi felly ar ôl Cofrestru;

ystyr **“Defnyddiwr Proffesiynol”**
neu **“Chi”** ac **“Eich”**

yw sefydliad o gyfreithwyr hawlwr sydd wedi'i awdurdodi'n briodol i ymglyfreitha yng Nghymru a Lloegr neu gynrychiolwyr rheoleiddiedig eraill i hawlwr sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol i gynnal gweithgarwch rheoli hawliadau rheoleiddiedig yng Nghymru a Lloegr, ym mhob achos sy'n cynrychioli Hawlydd unigol ac yn dilyn Hawliad ar ei ran drwy'r Porth;

ystyr **“Diben a Ganiateir”**

yw:

- (a) Cofrestru gan y Defnyddiwr Gweinyddol a mewngofnodi Defnyddwyr Awdurdodedig wedyn i'r Porth ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol;
- (b) cyflwyno Data Hawliadau gan Ddefnyddwyr Awdurdodedig i'r Porth;
- (c) olrhain Hawliadau a diweddarau Data Hawliadau a gyflwynwyd drwy'r Porth;
- (d) hwyluso camau i gael adroddiad meddygol gan arbenigwr meddygol achrededig neu MRO mewn perthynas â Hawliad drwy'r Porth; ac
- (e) y cyfathrebu rhwng y Defnyddwyr Awdurdodedig a'r Digolledwyr drwy'r Porth at ddibenion dilyn Hawliadau ar ran Hawlwr;

ystyr **“Digolledwr”**

yw'r cwmni yswiriant neu ddigolledwr perthnasol y mae'r Defnyddiwr Proffesiynol yn dwyn Hawliad yn ei erbyn ar ran Hawlydd drwy'r Porth;

ystyr **“Diwrnod Busnes”**

yw unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr;

mae i **“DSAR”**

yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 7.31;

ystyr **“GDPR”**

yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((UE) 2016/679);

ystyr “ Gwasanaethau ”	yw unrhyw wasanaethau sydd i’w darparu gan neu ar ran OICL i’r Defnyddiwr Proffesiynol o bryd i’w gilydd yn unol â’r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, fel y bo’n angenrheidiol i gyflawni’r Diben a Ganiateir, neu’n atodol i hynny;
ystyr “ Gwefan OICL ”	yw www.officialinjuryclaim.org.uk neu unrhyw URLs eraill y gall OICL hysbysu Defnyddwyr amdanynt o bryd i’w gilydd, lle bydd Defnyddwyr Proffesiynol yn cael mynediad ar y we i’r Porth;
ystyr “ Hawliad ”	yw hawliad o dan y Protocol Cyn Gweithredu ac sy’n ddarostyngedig iddo, a ddilynir gan y Defnyddiwr Proffesiynol drwy’r Porth ar ran Hawlydd;
ystyr “ Hawlydd ”	yw unigolyn sy’n destun Hawliad ac y gall y Defnyddiwr Proffesiynol gyflwyno ei fanylion drwy’r Porth;
ystyr “ Hysbysiad Preifatrwydd Defnyddiwr Proffesiynol ”	yw’r hysbysiad a baratowyd gan OICL sy’n cynnwys y wybodaeth y mae’n ofynnol iddo ei darparu i Ddefnyddwyr Awdurdodedig mewn cysylltiad â Phrosesu eu Data Personol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, sydd ar gael yma (fel y gall OICL ei ddiwygio o bryd i’w gilydd);
ystyr “ Hysbysiad Preifatrwydd Hawlydd ”	yw’r hysbysiad a baratowyd gan OICL sy’n cynnwys y wybodaeth y mae’n ofynnol iddo ei darparu i Hawlydwr mewn cysylltiad â Phrosesu eu Data Personol o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, sydd ar gael yma (y gall OICL ei ddiwygio o bryd i’w gilydd);
ystyr “ ID Defnyddiwr Awdurdodedig ”	yw’r cyfeirnod adnabod unigryw a roddir i bob Defnyddiwr Awdurdodedig, i’w ddefnyddio ar y cyd â Manylion Mynediad y Defnyddiwr Awdurdodedig i alluogi’r Defnyddiwr Awdurdodedig i gael mynediad drwy borwr ar y we i’r adran o’r Porth a ddiogelir gan gyfrinair;
ystyr “ Manylion Mynediad ”	yw cyfrinair a chyfrinymadrodd unigryw pob Defnyddiwr Awdurdodedig, a ddefnyddir ar y cyd â’r ID Defnyddiwr Awdurdodedig, i gael mynediad drwy borwr ar y we i’r adran o’r Porth a ddiogelir gan gyfrinair;
ystyr “ MedCo ”	yw MedCo Registration Solutions, cwmni cyfyngedig drwy warant, a ymgorfforwyd yn Lloegr o dan rif cwmni 09295557;
ystyr “ MRO ”	yw sefydliad adrodd meddygol;
ystyr “ Oriau Busnes ”	yw’r cyfnod rhwng 9.00am a 5.00pm ar unrhyw Ddiwrnod Busnes;
ystyr “ Porth ”	yw’r cymhwysiad ar-lein â brand OICL, yn cynnwys cymwysiadau a/neu feddalwedd arall (a gaiff eu haddasu gan OICL o bryd i’w gilydd), a fydd yn

darparu modd drwy borwr ar y we a/neu A2A i'r Defnyddiwr Proffesiynol a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig gyrchu a throsglwyddo'r Data Hawliadau a defnyddio gweithrediadau penodol i hwyluso camau i fwrw ymlaen â Hawliad ar ran Hawlydd;

bydd i **“Proses”**

yr ystyr a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data a bydd **“Prosesu”** neu **“Wedi'i Brosesu”** yn cael eu dehongli yn unol â hynny;

ystyr **“Protocol Cyn Gweithredu”**

yw'r protocol cyn gweithredu perthnasol ac unrhyw reolau cysylltiedig y gellir eu sefydlu a'u diwygio o bryd i'w gilydd gan y Senedd drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gymwysadwy i hawliadau y gellir eu dilyn drwy'r Porth;

ystyr **“Rheolau Trefniadaeth Sifil”**

yw'r cod trefniadol sy'n ymwneud â chynnal ymgyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr a ddyroddwyd gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU;

ystyr **“System”**

yw system gyfrifiadurol (gan gynnwys unrhyw galedwedd a meddalwedd) y Defnyddiwr Proffesiynol, a ddefnyddir gan Ddefnyddwyr Awdurdodedig i gael mynediad i'r Porth ac, yn achos mynediad drwy A2A yn unig, mae hyn yn cynnwys y “Rhyngwyneb Defnyddiwr” sydd wedi'i ddiffinio yn Atodlen 1);

bydd i **“Testun Data”**

yr ystyr a roddir iddo yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

ystyr **“Treth”**

yw pob treth, toll ac ardoll ac unrhyw daliadau, didyniadau neu arian a gedwir yn ôl o natur treth, ynghyd â'r holl gosbau, taliadau a llog sy'n ymwneud ag unrhyw un ohonynt neu unrhyw fethiant i ffeilio unrhyw ffurflen sy'n ofynnol at ddibenion unrhyw un ohonynt.

1.2 Yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn:

- (A) mae cyfeiriad at unrhyw statud neu ddarpariaeth statudol i'w ddehongli fel cyfeiriad at y statud neu ddarpariaeth statudol honno fel y gallai fod wedi, neu y gellir o bryd i'w gilydd, ei diwygio, ei haddasu neu ei haildeddfu a bydd hyn yn cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o bryd i'w gilydd o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno;
- (B) mae cyfeiriadau at “Cymal” neu “Cymalau” yn gyfeiriadau at gymalau o'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn;
- (C) mae cyfeiriad at unrhyw rywedd yn cynnwys unrhyw rywedd arall ac mae'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb;

- (D) mae cyfeiriadau at “**indemniad**” ac “**indemnio**” unrhyw berson rhag unrhyw amgylchiadau yn cynnwys ei indemnio a'i gadw rhag niwed ar sail ôl-Dreth rhag pob gweithred, hawliad ac achos a geir o bryd i'w gilydd yn erbyn y person hwnnw a phob colled neu ddifrod a'r holl daliadau, costau neu dreuliau a wneir neu a ysgwyddir gan y person hwnnw o ganlyniad i'r amgylchiad hwnnw neu a fyddai heb godi oni bai am yr amgylchiad hwnnw;
- (E) ystyr rhoi neu ragdybio unrhyw indemniad ar “**sail ôl-Dreth**” yw y bydd y swm sy'n daladwy yn unol â'r cyfryw indemniad yn cael ei gyfrifo mewn modd a fydd yn sicrhau, ar ôl ystyried:
- (i) unrhyw Dreth y mae'n ofynnol ei didynnu neu ei dal yn ôl o'r taliad;
 - (ii) swm ac amseriad unrhyw Dreth ychwanegol sy'n dod yn daladwy gan dderbynnwyd y taliad o ganlyniad i'r ffaith bod y taliad yn ddarostyngedig i Dreth sydd yn nwylo'r derbynnwyd; a
 - (iii) swm ac amseriad unrhyw fudd Treth a geir gan dderbynnwyd y taliad i'r graddau y gellir priodoli budd Treth o'r fath i'r mater sy'n arwain at y rhwymedigaeth i dalu,
- fod derbynnwyd y taliad indemniad yn yr un sefyllfa ag y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r mater a oedd yn arwain at y taliad wedi digwydd (neu, yn achos rhwymedigaeth i dalu sy'n codi drwy gyfeirio at fater sy'n effeithio ar berson heblaw derbynnwyd y taliad, fod derbynnwyd y taliad a'r person arall hwnnw, gyda'i gilydd, yn yr un sefyllfa ag y byddent ynddi pe na bai'r mater a oedd yn arwain at y rhwymedigaeth i dalu wedi digwydd), ar yr amod na fydd swm y taliad yn fwy na'r hyn a fyddai pe bai wedi'i ystyried at bob diben Treth fel un a dderbyniwyd gan y derbynnwyd yn unig ac nid unrhyw berson arall;
- (F) mae'r penawdau er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar y dehongliad o'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn;
- (G) bydd y geiriau “cynnwys”, “gan gynnwys” ac “wedi'i gynnwys” yn cael eu dehongli heb gyfyngiad oni bai fod hynny'n anghyson â'r cyd-destun.

2. **Derbyn yr Amodau Defnydd Cyffredinol**

2.1 Drwy ddefnyddio'r Porth, rydych yn cytuno, yn datgan ac yn gwarantu:

- (A) eich bod wedi darllen a chytuno i gael Eich rhwymo gan yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn; a
- (B) bod gennych yr awdurdod a'r cymhwyster i gytuno i'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn.

3. **Amodau mynediad**

3.1 Bydd eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn cael mynediad i'r adran o'r Porth a ddiogelir gan gyfrinair dim ond ar ôl:

- (A) i Chi gwblhau hynny o fetio arnoch y gall OICL (yn ôl ei ddisgresiwn llwyr) ei ofyn, gan gynnwys, ymysg pethau eraill, ateb yr holiadur a bennir gan OICL o bryd i'w gilydd a/neu wneud unrhyw ddatganiadau penodedig; a
 - (B) cofrestru'n llwyddiannus gydag OICL gan y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol ar Eich rhan ac, yn dilyn hynny, agor Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig ar gyfer y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol hwnnw, yn unol â Chymal 4 isod.
- 3.2 Bydd hawl ddiamedod gan OICL (i'r graddau a ganiateir gan y Gyfraith Gymwysadwy) i gyfyngu neu dynnu'n ôl, heb atebolrwydd, fynediad Eich Defnyddwyr Awdurdodedig i'r Porth ar unrhyw adeg heb roi rheswm ac adalw hynny o wybodaeth o unrhyw gyfarpar a ddefnyddir i gael mynediad i'r Porth y mae OICL yn tybio ei bod yn angenrheidiol er mwyn:
- (A) cydymffurfio â'r Gyfraith Gymwysadwy;
 - (B) cadw ei ddiogelwch; neu
 - (C) gorfodi darpariaethau'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn.
- 3.3 Bydd OICL yn ymdrechu'n rhesymol i roi gwybod i Chi cyn i OICL dynnu'n ôl fynediad Eich Defnyddwyr Awdurdodedig i'r Porth neu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

4. Cofrestru

Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig

- 4.1 Cyn i Ddefnyddwyr Awdurdodedig allu cael mynediad i'r adran o'r Porth a ddiogelir gan gyfrinair, rhaid i'r Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol:
- (A) cofrestru'n gyntaf gydag OICL drwy ddilyn y cyfarwyddiadau ar y sgrin a llenwi'r ffurflen gais berthnasol ("**Cofrestru**"); a
 - (B) ar ôl cwblhau Cofrestru, agor Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig ar gyfer pob Defnyddiwr Awdurdodedig.
- 4.2 Dim ond unwaith y caniateir i'r Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol Gofrestru ar gyfer y Porth (ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol), ac wedyn rhaid i'r holl Hawliad(au) a ddilyni'n gan y Defnyddiwr Proffesiynol a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig ar ran Hawlwyr drwy'r Porth gael eu dilyn drwy'r cofrestrriad hwnnw.
- 4.3 Drwy gwblhau'r broses Gofrestru a chyflwyno'r ffurflen gais berthnasol, mae'r Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol yn cadarnhau ac yn cytuno ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol:
- (A) bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r Defnyddiwr Proffesiynol a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig, a ddarperir gan y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol yn rhan o'r broses Gofrestru, yn wir, yn gywir ac yn gyflawn ym mhob agwedd berthnasol;
 - (B) nad yw'r Defnyddiwr Proffesiynol wedi cyflawni'r broses Gofrestru ar gyfer y Porth o'r blaen (neu os yw'r Defnyddiwr Proffesiynol wedi gwneud hynny, fod ei holl Gyfrifon Defnyddwyr Awdurdodedig blaenorol wedi'u dileu ac felly ei bod yn ofynnol i'r Defnyddiwr Proffesiynol gwblhau'r broses Gofrestru eto);

- (C) bod y Defnyddiwr Proffesiynol wedi cael yr holl gydsyniadau, trwyddedau, awdurdodiadau llywodraethol neu fel arall sy'n ofynnol mewn cysylltiad â defnyddio'r Porth a'r Gwasanaethau a bod y cydsyniadau, trwyddedau ac awdurdodiadau hynny mewn grym ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r gofynion hynny;
 - (D) bod y Defnyddiwr Proffesiynol wedi awdurdodi'r Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol i dderbyn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol; ac
 - (E) bod pob awdurdod gan y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol i reoli hawliau mynediad Defnyddwyr Awdurdodedig i'r Porth a'r Gwasanaethau yn unol â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn.
- 4.4 Mae Cofrestru'n golygu cynnig gan y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol (ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol) i OICL i agor Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig ar gyfer y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol ac mae'r holl gofrestriadau yn amodol ar gael eu derbyn gan OICL.
- 4.5 Bydd OICL (yn ôl disgrisiwn OICL yn unig) yn cadarnhau ei fod yn derbyn Cofrestru drwy gyfathrebiad electronig ysgrifenedig at y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol, yn dilyn:
- (A) gwirio gan OICL nad yw'r Defnyddiwr Proffesiynol eisoes wedi cwblhau Cofrestru ar gyfer y Porth (neu os yw'r Defnyddiwr Proffesiynol wedi cwblhau Cofrestru o'r blaen, ei bod yn ofynnol iddo ailgofrestru);
 - (B) cwblhau'n llwyddiannus y gweithdrefnau fetio y cyfeirir atynt yng Nghymal 3.1(A) gan OICL; ac
 - (C) cyflwyno'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn y ffurflen gais Cofrestru berthnasol i OICL gan y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol.

Cofrestru Defnyddwyr Awdurdodedig

- 4.6 Yn dilyn cadarnhau Cofrestru llwyddiannus, gall y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol gofrestru unrhyw nifer o gyflogeion neu asiantau'r Defnyddiwr Proffesiynol yn Ddefnyddwyr Awdurdodedig (gan gynnwys dynodi Defnyddwyr Gweinyddol ychwanegol) sy'n rhesymol ofynnol gan y Defnyddiwr Proffesiynol mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau.
- 4.7 Mae pob Defnyddiwr Gweinyddol yn cadarnhau ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol na fydd ond yn cofrestru yn Ddefnyddwyr Awdurdodedig gyflogeion neu asiantau unigol i'r Defnyddiwr Proffesiynol sydd wedi'u hawdurdodi (ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol) ac y mae'n angenrheidiol iddynt (at ddibenion eu rôl yn neu ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol) i gael mynediad i'r Porth a defnyddio'r Gwasanaethau.

5. Awdurdod i weithredu

- 5.1 Rydych yn gwarantu'n barhaus Eich bod wedi'ch awdurdodi'n briodol a'ch bod wedi cael yr holl ganiatadau rheoleiddio sy'n ofynnol i ddarparu Eich gwasanaethau i Hawlwyr yn gyfreithlon a dilyn Hawliadau ar eu rhan drwy'r Porth.

5.2 Mewn perthynas â phob Hawliad a ddilynir gennych ar ran Hawlydd drwy'r Porth, rydych yn gwarantu'ch bod wedi cael pob awdurdod sy'n ofynnol gan yr Hawlydd i weithredu ar ei ran mewn perthynas â'r Hawliad hwnnw.

5.3 Rydych yn cydnabod ac yn cytuno mai Chi fydd yn bennaf cyfrifol am gydymffurfio â'r holl reoliadau yn erbyn gwyngalchu arian mewn perthynas â phob Hawlydd y byddwch yn dilyn Hawliad drwy'r Porth ar ei ran.

6. Rhoi trwydded

6.1 Ar yr amod Eich bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, mae OICL drwy hyn yn rhoi trwydded bersonol gyfyngedig, ddirymadwy, nad yw'n unigryw, na ellir ei his-drwyddedu ac nad yw'n drosglwyddadwy i Chi i ddefnyddio mynediad drwy borwr ar y we i'r Porth yn unol â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn unig, a dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Dibenion a Ganiateir, hyd nes y caffo'r cytundeb sy'n ymgorffori'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ei atal neu ei derfynu, am ba reswm bynnag. Mae unrhyw hawliau nad ydynt wedi'u rhoi'n benodol i Chi yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn cael eu cadw a'u dargadw gan OICL a/neu ei drydydd partïon.

6.2 Os bydd ar y Defnyddiwr Proffesiynol angen cael mynediad i'r Porth drwy A2A ar gyfer ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig, yna rhoddir mynediad o'r fath yn unol ac yn ddarostyngedig i delerau Atodlen 1 i'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ac fe'i rheolir gan y telerau hynny yn ogystal â thelerau eraill yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn.

6.3 Rydych yn cydnabod ac yn cytuno, ac eithrio mewn perthynas â Data Hawliadau a ddarperir gennych drwy'r Porth, nad oes gennych fuddiant na hawl perchnogaeth o gwbl (yn cynnwys unrhyw hawl eiddo deallusol) yn y Porth na dim o'i gynnwys ac rydych yn cydnabod ac yn cytuno, os bydd unrhyw hawl o'r fath yn codi, y byddwch yn brydlon ar gyfarwyddyd ysgrifenedig OICL yn aseinio neu'n peri aseinio hawliau neu berchnogaeth o'r fath yn derfynol i OICL (neu i barti arall neu bartïon eraill a enwebir gan OICL).

6.4 Yr unig Ddata y caniateir i'r Defnyddiwr Proffesiynol (drwy ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig) eu gweld a'u defnyddio drwy'r Porth yw'r Data hynny sy'n ymwneud â'r Defnyddiwr Proffesiynol neu'r Hawliad(au) a ddilynir gan y Defnyddiwr Proffesiynol ar ran Hawlwyr y mae'r Defnyddiwr Proffesiynol yn eu cynrychioli. Os bydd y Defnyddiwr Proffesiynol neu Ddefnyddiwr Awdurdodedig yn cael unrhyw ddata neu wybodaeth arall drwy'r Porth nad yw'n ymwneud â'r Defnyddiwr Proffesiynol neu Hawliad(au) o'r fath, bydd y Defnyddiwr Proffesiynol yn hysbysu OICL cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dod i wybod am hyn (ond beth bynnag o fewn 12 awr) ac yn dileu ar unwaith o'ch System unrhyw ddata a gwybodaeth arall o'r fath sydd wedi'i lawrlwytho drwy'r Porth.

6.5 Mae'r holl hawliau eiddo deallusol yn y Porth naill ai'n eiddo i OICL neu wedi'u trwyddedu i OICL ac ni fydd dim yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn golygu aseinio, trosglwyddo neu freinio hawliau eiddo deallusol o'r fath i neu yn y Defnyddiwr Proffesiynol (neu unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig). Ni chewch wneud dim (a rhaid i Chi sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn gwneud dim) y gellir ystyried ei fod yn torri'r hawliau eiddo deallusol sy'n eiddo i OICL a/neu sydd wedi'u trwyddedu i OICL fel a nodir yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ac ni chewch ddefnyddio (a rhaid i Chi sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn defnyddio) enw, nod masnach neu logo OICL na'r Porth heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan OICL.

7. Rhwymedigaethau Defnyddiwr Proffesiynol wrth gael mynediad i'r Porth

- 7.1 Rydych yn cydnabod ac yn cytuno bod mynediad i'r Porth a'r defnydd ohono gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn amodol ar gydymffurfiaeth barhaus â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn gennych Chi a'ch Defnyddwyr Awdurdodedig.
- 7.2 Rhaid i Chi roi gwybod ar unwaith i OICL am unrhyw doriad gennych Chi (neu unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig) ar yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn.

Ymddygiad Defnyddiwr Proffesiynol wrth ddefnyddio'r Porth

- 7.3 Chi sy'n llwyr gyfrifol am sicrhau, a rhaid i Chi sicrhau, bod yr holl wybodaeth (gan gynnwys, heb gyfyngiad, y Data Hawliadau) a gofnodir yn y Porth gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfreithlon. Byddwch yn hysbysu'r Digolledwr perthnasol yn brydlon (a beth bynnag o fewn saith diwrnod) os ydych yn credu'n rhesymol ei bod yn ymddangos bod y Porth neu'r Data Hawliadau yn cynnwys gwall neu wrth ddod i wybod am unrhyw wybodaeth a fyddai'n peri i unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych o'r blaen drwy'r Porth fod yn anwir, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd. Rydych drwy hyn yn cydnabod ac yn cytuno, ar ôl i wybodaeth o'r fath gael ei chyflwyno drwy'r Porth, na ellir ei golygu na'i diwygio ac ni fydd gan OICL unrhyw atebolrwydd o gwbl mewn perthynas ag unrhyw anghywirdeb, anghyflawnder ac anghyfreithlondeb.
- 7.4 Byddwch yn sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn cael mynediad i'r Porth o wlad arall os na chaniateir gwneud hynny yn y wlad honno, ac rydych yn cydnabod mai Chi sy'n gyfrifol am wirio'r sefyllfa gyfreithiol mewn gwledydd eraill. Os bydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn cael mynediad i'r Porth o wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu unrhyw wlad sy'n cyfyngu cyfathrebiadau electronig o'r math sydd yn y Porth, Chi fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â deddfau lleol y wlad honno ac rydych yn cytuno y byddwch yn indennio OICL ar sail ôl-Dreth rhag unrhyw golledion, rhwymedigaethau, iawndal a threuliau (yn cynnwys ffioedd cyfreithiol ar sail indenniad llawn) a ysgwyddir gan neu a ddyfernir yn erbyn OICL o ganlyniad i fethiant gennych Chi (neu unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig) i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon.
- 7.5 Chi fydd yn gyfrifol am unrhyw wasanaeth trydydd parti (yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i 'ddarparwyr gwasanaethau rhyngryd') y mae Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn ei ddefnyddio i gael mynediad i'r Porth, gan gynnwys cydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau sy'n gymwys i unrhyw wasanaeth o'r fath a thalu unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig ag ef.
- 7.6 Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau Eich bod yn cydymffurfio (a bod Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn cydymffurfio) ag unrhyw brosesau a gweithdrefnau cyfreithiol sy'n ymwneud â Hawliadau (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini a nodir yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil) ac ni fydd OICL yn eich hysbysu Chi na'ch Defnyddwyr Awdurdodedig mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chydymffurfio â phrosesau a gweithdrefnau cyfreithiol o'r fath.
- 7.7 Ni fyddwch Chi (a byddwch yn sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig) yn cael mynediad i'r Porth nac yn defnyddio'r Data mewn unrhyw ffordd ar gyfer darparu gwasanaethau masnachol (heblaw wrth ddarparu cynrychiolaeth gyfreithiol i Hawliwr a dilyn Hawliad ar ei ran drwy'r Porth).

Gofynion o ran y System

- 7.8 Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod Eich System (gan gynnwys unrhyw System a ddefnyddir gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig i gael mynediad i'r Porth) ar bob adeg berthnasol yn cydweddu â'r Porth ac yn addas ar gyfer cael mynediad i'r Porth a byddwch yn arfer cymhwysedd, sgiliau a gwybodaeth resymol yn gysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth mewn perthynas â chael mynediad i'r Porth gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig. Ni fydd gan OICL unrhyw atebolrwydd o gwbl i Chi, Eich Defnyddwyr Awdurdodedig nac unrhyw drydydd parti am unrhyw golledion a allai godi o fethiant gennych Chi i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon. Nodir amodau ychwanegol sy'n gymwys i'ch System ar gyfer cael mynediad i'r Porth drwy A2A yn Atodlen 1.
- 7.9 Chi fydd yn gyfrifol am edrych ar Wefan OICL am gyhoeddiadau a wneir gan OICL yn ymwneud â newidiadau yn y Porth, y Gwasanaethau, yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ("**Newidiadau**") ac am sicrhau Eich bod Chi (a'ch Defnyddwyr Awdurdodedig) a'ch System yn cydymffurfio, ar Eich cost Chi, ag unrhyw Newidiadau o'r fath.
- 7.10 Chi fydd yn gyfrifol am ddefnyddio a chynnal arferion da y diwydiant mewn perthynas â'ch systemau TG i sicrhau bod Eich System (yn cynnwys unrhyw System a ddefnyddir gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig i gael mynediad i'r Porth) yn rhydd o unrhyw feirws cyfrifiadurol neu god niweidiol arall a'i bod yn cael ei chynnal a'i chadw'n ddigonol ym mhob ffordd. Ni fydd OICL yn derbyn unrhyw neges na chyfarwyddyd a anfonir gan ddefnyddio'r Porth os yw'r neges neu gyfarwyddyd yn cynnwys feirws cyfrifiadurol neu god niweidiol arall a bydd y rhain yn cael eu dileu. Os caiff neges o'r fath ei throsglwyddo ar gam o ganlyniad i dorri'r amod hwn gennych Chi neu unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig, yna byddwch yn llwyr atebol am unrhyw golled ddilysol a rhaid i Chi indemnio OICL a'r rheini sydd â Chyswllt ag ef ar sail ôl-Dreth rhag unrhyw golled y maent yn ei chael o ganlyniad.

Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig a diogelwch

- 7.11 Oni chaniateir hynny'n benodol yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, ni chewch ganiatáu i unrhyw berson heblaw Eich Defnyddwyr Awdurdodedig gael mynediad i'r Porth neu ei ddefnyddio drwy Eich System a rhaid i Chi a'ch Defnyddwyr Awdurdodedig gydymffurfio â'r holl weithdrefnau diogelwch perthnasol y'ch hysbysir amdanynt gan OICL o bryd i'w gilydd. Ni fydd gan OICL unrhyw atebolrwydd o gwbl i Chi, Eich Defnyddwyr Awdurdodedig nac unrhyw drydydd parti am unrhyw golledion a allai godi o fethiant gennych Chi neu'ch Defnyddwyr Awdurdodedig i gydymffurfio â'r rhwymedigaeth hon.
- 7.12 Er mwyn galluogi Eich Defnyddwyr Awdurdodedig i gael mynediad i'r Porth a'i ddefnyddio, rhaid i bob Defnyddiwr Awdurdodedig nodi pwy ydyw yn gywir drwy ddefnyddio ei ID Defnyddiwr Awdurdodedig a'i Fanylion Mynediad. Rydych yn cytuno bod hawl gan OICL i ddibynnu ar ddefnyddio'r ID Defnyddiwr Awdurdodedig a Manylion Mynediad fel dull adnabod digonol ar gyfer Eich Defnyddwyr Awdurdodedig.
- 7.13 Rhaid i Chi sicrhau bod pob Defnyddiwr Awdurdodedig yn cydymffurfio â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn (i'r graddau sy'n gymwysadwy) fel pe baent yn Ddefnyddiwr Proffesiynol a byddwch yn aros yn bennaf atebol am unrhyw fethiant i wneud hynny gan unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig o'r fath.

- 7.14 Rhaid i chi sicrhau bob amser fod o leiaf un Defnyddiwr Gweinyddol dynodedig wedi'i awdurdodi i weithredu ar Eich rhan. Bydd y Defnyddiwr/Defnyddwyr Gweinyddol yn gyfrifol am sicrhau bod Defnyddwyr Awdurdodedig yn cadw eu ID Defnyddiwr Awdurdodedig a'u Manylion Mynediad yn ddiogel. Os yw Defnyddiwr Gweinyddol yn credu bod rhywun nad yw'n Ddefnyddiwr Awdurdodedig wedi cael meddiant o ID Defnyddiwr Awdurdodedig a Manylion Mynediad, rhaid i'r Defnyddiwr Gweinyddol perthnasol gysylltu ar unwaith â customer.service@officialinjuryclaim.org.uk Ni fydd OICL yn atebol o gwbl i'r Defnyddiwr Proffesiynol, ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig nac unrhyw drydydd parti am unrhyw golledion (boed uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol) a achosir gan y defnydd o ID Defnyddiwr Awdurdodedig a Manylion Mynediad gan bersonau nad ydynt yn Ddefnyddwyr Awdurdodedig.
- 7.15 Bydd Defnyddwyr Awdurdodedig yn cael tri chynnig i gofnodi eu ID Defnyddiwr Awdurdodedig a'u Manylion Mynediad yn gywir wrth geisio mewngofnodi i'r Porth. Os caiff y wybodaeth hon ei chofnodi'n anghywir fwy na theirgwaith, gellir atal hawliau'r Defnyddiwr Awdurdodedig i ddefnyddio'r Porth dros dro a gall OICL analluogi ei gyfrif dros dro.
- 7.16 Ni chewch ddefnyddio (a rhaid i Chi sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn defnyddio) unrhyw ran o unrhyw seilwaith, rhwydwaith a/neu ddyfeisiau cyfathrebu neu ddolenni sy'n ymwneud â'r Porth at ddibenion heblaw'r Diben a Ganiateir.
- 7.17 Rhaid i'r Defnyddiwr Proffesiynol lynu bob amser, a sicrhau bod ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig yn glynu bob amser, at unrhyw gyfarwyddiadau cyfreithlon a gaiff gan OICL mewn perthynas â'i ddefnydd o'r Porth a'r Data a rhaid iddo ymateb i unrhyw ymholiadau gan OICL sy'n ymwneud â'i fynediad i'r Porth ac at y Data a'i ddefnydd ohonynt o fewn 24 awr.
- 7.18 Ni chewch ddefnyddio (a rhaid i Chi sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn defnyddio) y Porth i ymddwyn mewn unrhyw ffordd y gellid disgwyl yn rhesymol iddi gael effaith niweidiol ar enw da OICL neu'r Porth neu wneud unrhyw beth a fydd neu a allai niweidio'r Porth, ymyrryd ag ef neu'r mynediad iddo, neu amharu ar ei weithrediadau.
- 7.19 Mae pob Defnyddiwr Gweinyddol yn cydnabod ei fod yn gyfrifol am yr holl ddefnydd a wneir o'r Porth gan Ddefnyddwyr Awdurdodedig ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol, o dan ID Defnyddiwr Awdurdodedig a rhaid iddo sicrhau:
- (A) bod mynediad i'r Porth wedi'i gyfyngu i Ddefnyddwyr Awdurdodedig sydd wedi ymgysylltu â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ac sydd wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Porth;
 - (B) bod pob Defnyddiwr Awdurdodedig yn cydymffurfio â'r holl weithdrefnau diogelwch yr hysbysir y Defnyddiwr/Defnyddwyr Gweinyddol amdanynt gan OICL o bryd i'w gilydd;
 - (C) y bydd y Defnyddiwr/Defnyddwyr Gweinyddol yn gosod cyfrineiriau ar gyfer Defnyddwyr Awdurdodedig ar lefelau diogelwch priodol a phan fo angen byddant yn ailosod cyfrineiriau ar gyfer Defnyddwyr Awdurdodedig;

- (D) bod manylion adnabod unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig sy'n peidio â chael ei awdurdodi gan y Defnyddiwr Gweinyddol i ddefnyddio'r Porth yn cael eu hanalluogi ar unwaith ar ôl i awdurdod o'r fath gael ei dynnu'n ôl;
- (E) y cynhelir adolygiadau rheolaidd o leiaf unwaith bob tri mis o'r angen i bob Defnyddiwr Awdurdodedig gael mynediad i'r Porth (yr "**Adolygiadau Chwarterol**") ac y bydd manylion adnabod unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig nad oes angen mynediad arno mwyach yn cael eu hanalluogi ar unwaith (a beth bynnag o fewn dau Ddiwrnod Busnes ar ôl cwblhau'r Adolygiad Chwarterol perthnasol);
- (F) y bydd y Defnyddwyr Awdurdodedig yn cadw eu ID Defnyddiwr Awdurdodedig a'u Manylion Mynediad mewn man diogel ac na ddatgelir y rhain i unrhyw berson heblaw'r Defnyddiwr Awdurdodedig perthnasol a'r Defnyddiwr/Defnyddwyr Gweinyddol perthnasol; ac
- (G) na fydd Defnyddwyr Awdurdodedig yn gadael eu cyfrifiadur (nac unrhyw ddyfais arall) heb eu diogelu pan ydynt mewn cysylltiad â'r Porth,

ac ni fydd OICL yn atebol am unrhyw ganlyniadau i fethiant gan y Defnyddiwr Proffesiynol na'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig i gydymffurfio â'r darpariaethau uchod.

- 7.20 Rhaid i Chi ganiatáu i OICL neu asiantau a benodir gennym gael mynediad i unrhyw un o'ch safleoedd, at gofnodion perthnasol, personél, cyfarpar a systemau (gan gynnwys Eich System Chi) fel y bo'n rhesymol ofynnol gan OICL i gynnal archwiliad, er mwyn i OICL allu gwirio Eich cydymffurfiaeth (a chydymffurfiaeth Eich Defnyddwyr Awdurdodedig) â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn. Bydd OICL yn gwneud ymdrechion rhesymol i leihau unrhyw darfu arnoch Chi neu'ch busnes wrth gynnal archwiliad a bydd OICL yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i Chi o leiaf 5 Diwrnod Busnes cyn cynnal archwiliad oni bai fod archwiliad o'r fath yn cael ei gynnal mewn perthynas ag amheuaeth o dwyll neu doriad sylweddol ar yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, pan na fydd angen rhoi rhybudd.

Eich rhwymedigaethau ynghylch diogelu data

- 7.21 Cyn i'ch Defnyddwyr Awdurdodedig gofnodi Data Personol Hawlydd neu unrhyw unigolion eraill (yn cynnwys, ymysg eraill, tystion, teithwyr, diffynyddion, neu gyflogeion y gwasanaethau brys) yn y Porth, rhaid i Chi sicrhau eich bod wedi pennu a chofnodi sail gyfreithlon dros Brosesu Data Personol o'r fath gennych Chi yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data. Rydych yn cydnabod mai Chi yw'r rheolydd (fel y'i diffinnir mewn Deddfwriaeth Diogelu Data) mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol y byddwch Chi yn eu cyflwyno drwy'r Porth ac y byddwch yn cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau Chi eich hun o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- 7.22 Byddwch yn darparu copi o'r Hysbysiad Preifatrwydd Hawlydd, neu ddolen ato, i bob Hawlydd yr ydych yn ei gynrychioli cyn i unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig gofnodi ei Ddata Personol yn y Porth.
- 7.23 Byddwch Chi, ar gais OICL, yn darparu Hysbysiad Preifatrwydd Hawlydd wedi'i ddiweddarau o bryd i'w gilydd i bob Hawlydd yr ydych yn ei gynrychioli, y cofnodwyd ei

Ddata Personol yn y Porth gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig. Byddwch yn hysbysu OICL Eich bod wedi cydymffurfio â'r cais o fewn 15 diwrnod ar ôl ei drosglwyddo i Chi gan OICL.

- 7.24 Rhaid i Chi gydymffurfio (a rhaid i Chi sicrhau y bydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn cydymffurfio) â'r Gyfraith Gymwysadwy (yn cynnwys Deddfwriaeth Diogelu Data) mewn perthynas ag unrhyw Ddata a gewch Chi neu Eich Defnyddwyr Awdurdodedig wrth ddefnyddio'r Porth neu'r Gwasanaethau.
- 7.25 Rhaid i Chi beidio (a rhaid i Chi sicrhau y bydd eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn peidio) â cheisio cyrchu, defnyddio na Phrosesu fel arall unrhyw Ddata at unrhyw ddiben ac eithrio Diben a Ganiateir neu mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r Dibenion a Ganiateir.
- 7.26 Rhaid i Chi beidio (a rhaid i Chi sicrhau y bydd eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn peidio) â defnyddio at ddibenion heblaw'r Diben a Ganiateir unrhyw ran o unrhyw seilwaith, rhwydwaith a/neu ddyfeisiau cyfathrebu neu ddolenni sy'n ymwneud â'r Porth a byddwch Chi yn gweithredu ac yn cynnal mesurau technegol a sefydliadol priodol i sicrhau bod Data'n cael eu cadw'n ddiogel yn unol â'r Gyfraith Gymwysadwy sydd, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.
- 7.27 Byddwch yn hysbysu OICL ar unwaith cyn gynted ag y deuwch i wybod, neu i amau'n rhesymol, fod unrhyw Ddata wedi cael eu defnyddio a/neu eu datgelu heb awdurdodi hynny.
- 7.28 Mewn perthynas â thrydydd partïon, ni fyddwch Chi (a byddwch yn sicrhau na fydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig):
- (A) yn trosglwyddo Data i unrhyw drydydd parti nad yw'n gwbl ofynnol iddo gael y Data hynny at y Diben a Ganiateir;
 - (B) yn caniatáu i unrhyw drydydd parti gael mynediad i'r Porth neu at y Data lle nad yw'n gwbl ofynnol iddo gael mynediad o'r fath at y Diben a Ganiateir; ac
 - (C) byddwch yn rhoi mesurau diogelu priodol ar waith, yn cynnwys rhwymedigaethau contractiol, i sicrhau, lle byddwch Chi neu Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn trosglwyddo Data i drydydd partïon, neu'n caniatáu mynediad i'r Porth neu at Ddata gan drydydd partïon yn unol â'r Cymal 7.28 hwn, y bydd unrhyw drydydd parti o'r fath yn cydymffurfio â'r Gyfraith Gymwysadwy (yn cynnwys Deddfwriaeth Diogelu Data).
- 7.29 Rhaid i Chi beidio (a rhaid i Chi sicrhau y bydd Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn peidio) â chreu unrhyw gronfa ddata o'r Data a geir drwy'r Porth neu sy'n deillio o'r Data hynny at unrhyw ddiben arall heblaw'r Diben a Ganiateir.
- 7.30 Os bydd y naill barti neu'r llall yn cael cais gan unigolyn mewn perthynas â'r Data Personol y mae'n eu dal am yr unigolyn hwnnw yn y Porth mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau, bydd y parti hwnnw'n hysbysu'r parti arall cyn gynted ag y bo'n ymarferol am y cais ac yn trafod â'r parti arall sut i ddelio ag ef (gan gynnwys sut y gall OICL godi tâl am y costau a ysgwyddir a'r amser a dreulir wrth ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath).

7.31 Yn amodol ar Gymal 7.32 a Chymal 7.33, os bydd OICL yn cael cais gan unigolyn, sy'n cynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, cais am fynediad at ddata gan y testun (“**DSAR**”) a chais am gludadwyedd Data Personol (“**Cais am Gludadwyedd**”), ynghylch Data Personol a gofnodwyd gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yn y Porth neu a Broseswyd gennych Chi neu Eich Defnyddwyr Awdurdodedig mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau, byddwch Chi a'ch Defnyddwyr Awdurdodedig yn cynorthwyo ac yn cydweithredu'n llwyr ag OICL wrth reoli a chydymffurfio â'r cais, gan gynnwys drwy:

(A) yn achos DSAR:

- (i) darparu copïau yn rhad ac am ddim o'r Data Personol i'r Testun Data sy'n cyflwyno'r DSAR (neu ddarparu copïau yn rhad ac am ddim i OICL i OICL eu darparu i'r Testun Data); a
- (ii) darparu gwybodaeth i OICL a fydd yn galluogi OICL i gysylltu cais DSAR gan Destun Data â'r meini prawf sy'n angenrheidiol i chwilio'r Porth, os bydd OICL yn profi unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio'r meini prawf chwilio a ddarperir iddo gan Destun Data sy'n arfer ei hawl DSAR; a

(B) yn achos Cais am Gludadwyedd, cynorthwyo OICL i ddarparu'r Data Personol mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin, y gellir ei ddarllen gan beiriant ac sy'n rhyngweithredadwy.

7.32 Os bydd Testun Data yn cyflwyno cais am gywiriad i OICL mewn perthynas â Data Personol a gofnodwyd yn y Porth gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig, bydd OICL yn Eich hysbysu a Chi fydd yn gyfrifol am ystyried dilysrwydd y cais a (lle bo'n briodol) Chi fydd yn gyfrifol am gydymffurfio â'r cais. Gall cydymffurfio olygu cyflwyno cyfathrebiad ar ran Hawlydd i'r Digolledwr perthnasol drwy'r Porth i gywiro'r Data Personol neu (lle mae'r cais am gywiro yn ymwneud â manylion personol yr Hawlydd a bod gweithrediad y Porth yn caniatáu hyn) ddiweddarau'r Data Personol a gedwir yn y Porth. Byddwch yn hysbysu OICL am y camau rydych wedi'u cymryd o fewn 15 diwrnod wedi i OICL drosglwyddo'r cais i Chi.

7.33 Os bydd Testun Data yn cyflwyno cais am ddileu ei Ddata Personol yn unol â'r 'hawl i gael ei anghofio' o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data neu gais i gyfyngu Prosesu ei Ddata Personol i OICL, bydd OICL yn eich hysbysu Chi a bydd OICL yn gyfrifol am ystyried dilysrwydd y cais ac, os yw'n gais dilys, am gydymffurfio ag ef. Rydych yn deall mai dim ond drwy ddileu'r Hawliad perthnasol o'r Porth y gellir cyfyngu Prosesu. Bydd OICL yn eich hysbysu am y camau a gymerwyd o fewn 15 diwrnod wedi i OICL eich hysbysu am y cais.

8. Y Porth

8.1 Mae'r Porth yn galluogi'r Defnyddiwr Proffesiynol (drwy ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig) i gyfathrebu'n electronig ar ran Hawlwyr yn unol â'r Rheolau Trefniadaeth Sifil at y Diben a Ganiateir. Nid yw OICL yn gwneud unrhyw ddatganiad na gwarant bod y Porth yn cydymffurfio â'r Rheolau Trefniadaeth Sifil.

8.2 Nid oes dim yn y Porth sydd neu sydd wedi'i fwriadu i fod yn argymhelliad neu'n gyngor neu'n hysbyseb, cymhelliad neu gynnig o unrhyw fath.

- 8.3 Darperir y Porth ar sail “fel y mae” ac “fel y mae ar gael”. Nid yw OICL yn sicrhau nac yn gwarantu bod mynediad ar gael i'r Porth, at y Gwasanaethau na bod darpariaeth o Ddata (neu unrhyw un ohonynt) a (heb amharu ar unrhyw hawl neu rwymedi arall a all fod gan OICL), mae OICL yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl y Porth, y Gwasanaethau a'r ddarpariaeth o Ddata (neu unrhyw un ohonynt) heb eich hysbysu Chi ar unrhyw adeg ac yn ôl disgrisiwn llwyr OICL, gan gynnwys (heb gyfyngiad) er mwyn cynnal a chadw Gwefan OICL, os bydd rhwydwaith yn methu neu am resymau sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth neu ddiogelwch.
- 8.4 Mae OICL yn cadw'r hawl i newid neu addasu'r ddarpariaeth i'r Defnyddiwr Proffesiynol (a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) o fynediad i'r Porth neu at y Gwasanaethau neu'r Data er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ofynion rheoliadol neu adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn anghenion am gymorth neu i wella, newid neu ehangu'r Porth neu'r Gwasanaethau.
- 8.5 Ni fydd unrhyw atebolrwydd gan OICL i Ddefnyddiwr Proffesiynol (nac unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig) am unrhyw ddiffyg argaeledd neu ymyriad yng ngweithrediad y Porth nac am unrhyw fethiant neu oedi wrth gyfathrebu sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol a rhesymol OICL. Eich cyfrifoldeb Chi a chyfrifoldeb Eich Defnyddwyr Awdurdodedig yw sicrhau bod unrhyw gyfathrebiadau'n cael eu hanfon mewn da bryd i'w derbyn o fewn unrhyw derfynau amser perthnasol.

9. Casglu a defnyddio data gan OICL

- 9.1 Yn amodol ar Gymal 9.2, gall y defnydd o'r Porth olygu bod OICL yn casglu gwybodaeth a gyflwynir gan eich Defnyddwyr Awdurdodedig neu sy'n ymwneud â'ch Defnyddwyr Awdurdodedig, yn cynnwys:
- (A) er mwyn ymdrin ag unrhyw ymholiad sy'n ymwneud â defnyddio'r Porth;
 - (B) er mwyn gweinyddu a/neu reoli ein perthynas â Defnyddwyr Awdurdodedig;
 - (C) er mwyn sicrhau ansawdd a monitro cydymffurfiaeth;
 - (D) er mwyn cynnal a chadw'r Porth;
 - (E) er mwyn archwilio a dadansoddi sut mae'r Porth (neu unrhyw ran ohono) yn cael ei ddefnyddio;
 - (F) er mwyn cynnal unrhyw ymchwiliadau sydd eu hangen i ddiogelu enw da y Porth;
 - (G) pan fo OICL (yn ôl ei ddisgrisiwn llwyr) yn ei ystyried yn briodol, er mwyn cydweithredu ag ymholiadau gan bartïon sydd â buddiant yn y Porth (yn cynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, awdurdodau llywodraethol y DU a chyrrff rheoleiddio); a
 - (H) lle mae'r wybodaeth yn Ddata Personol, at y dibenion a ddisgrifir yn ein Hysbysiad Preifatrwydd Defnyddiwr Proffesiynol.
- 9.2 Bydd OICL yn Prosesu unrhyw Ddata Personol a gyflwynir gan Ddefnyddwyr Awdurdodedig drwy'r Porth yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data.

- 9.3 Yn amodol ar Gymal 9.4, bydd OICL yn trefnu bod data ystadegol dienw penodol ar gael i Ddigolledwyr a Defnyddwyr Proffesiynol sy'n ymwneud â defnyddio'r Porth ("**Data Porth Dienw**").
- 9.4 Bydd OICL yn pennu'r modd o drefnu bod Data Porth Dienw ar gael a gall (yn ôl ei ddisgresiwn llwyr) ar unrhyw adeg atal neu beidio â darparu Data Porth Dienw (neu unrhyw ran ohonynt) i Ddigolledwyr a Defnyddwyr Proffesiynol, neu newid cwrmpas Data Porth Dienw y mae OICL yn trefnu iddynt fod ar gael i Ddigolledwyr a Defnyddwyr Proffesiynol.
- 9.5 Bydd unrhyw Ddata Porth Dienw y trefnir iddynt fod ar gael gan OICL i Ddigolledwyr a Defnyddwyr Proffesiynol yn cael eu darparu at ddibenion gwybodaeth yn unig ac nid yw OICL yn gwneud unrhyw ddatganiad na gwarant (datganedig neu oblygedig) o ran cywirdeb, digonolrwydd, cyflawnrwydd na thegwch unrhyw Ddata Porth Dienw a ddarperir i Ddigolledwyr a Defnyddwyr Proffesiynol ac, i'r graddau y mae'r gyfraith yn caniatáu hynny, nid yw OICL yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd o gwbl am gywirdeb neu ddigonolrwydd Data Porth Dienw neu am unrhyw wallau, hepgoriadau neu gamddatganiadau sy'n gysylltiedig â hynny.

10. Cwynion

- 10.1. Os oes angen i Chi wneud cwyn i OICL mewn cysylltiad â'ch defnydd o'r Porth neu'r Gwasanaethau, gallwch wneud hynny drwy (i) llenwi'r ffurflen ar dudalen "Cysylltu â Ni" Gwefan OICL, (ii) dros y ffôn, (iii) drwy'r e-bost neu (iv) mewn llythyr, gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

E-bost: customer.service@officialinjuryclaim.org.uk

Ffôn: 0800 118 1631

Dydd Llun i ddydd Gwener: 9:00am – 5:00pm

Dydd Sadwrn: Ar gau

Dydd Sul a gwyliau banc: Ar gau

Cyfeiriad post: Customer Service, Official Injury Claim Limited, Linford Wood House, 6- 12 Capital Drive, Milton Keynes, MK14 6XT

- 10.2. Bydd OICL yn ceisio delio â'ch cwyn yn brydlon, yn effeithiol ac mewn ffordd gadarnhaol. Wrth ddelio â chwyn, bydd OICL:
- 10.2.1. yn cydnabod yn brydlon ei fod wedi cael y gwyn;
- 10.2.2. yn ymchwilio i'r gwyn ac yn darparu ymateb manwl o fewn 10 Diwrnod Busnes oddi ar ddyddiad cydnabod y gwyn, lle bynnag y bo modd;
- 10.2.3. os na fydd OICL yn gallu darparu ymateb manwl o fewn 10 Diwrnod Busnes, bydd OICL yn darparu diweddariad ysgrifenedig i Chi;
- 10.2.4. os cymerir mwy na 10 Diwrnod Busnes i ymchwilio i gwyn, bydd OICL yn anfon ymateb terfynol o fewn wyth wythnos ar ôl cydnabod y gwyn; a
- 10.2.5. os na fydd OICL yn gallu darparu ymateb terfynol i Chi o fewn y cyfnod hwn, bydd OICL yn ysgrifennu atoch i egluro pam, i roi gwybod i Chi pa bryd y gallwch ddisgwyl cael ymateb terfynol ac am unrhyw gamau dilynol.

Uwchgyfeirio cwynion

- 10.3. Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd y mae'ch cwyn yn cael ei thrafod, gallwch ofyn am ei huwchgyfeirio a'i hadolygu ar lefel uwch. Yn ôl natur y gŵyn a'r gwasanaeth y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, bydd OICL yn ymdrechu i ddatrys Eich cwyn drwy ei chyfeirio at y pwyntiau uwchgyfeirio canlynol, fel y bo'n briodol:
- 10.3.1. Aelod o'r tîm;
 - 10.3.2. Uwch Asiant;
 - 10.3.3. Rheolwr Tîm;
 - 10.3.4. Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chwynion;
 - 10.3.5. Swyddfa'r Prif Weithredwr.
- 10.4. Os yw'n briodol, bydd aelod o dîm OICL yn ceisio datrys y mater gyda Chi yn y lle cyntaf. Os na fydd yr aelod o'r tîm yn datrys y mater, rhaid ei gyfeirio i sylw'r Uwch Asiant a fydd yn ceisio datrys y mater. Os na fydd yr Uwch Asiant yn datrys y mater, rhaid ei gyfeirio i sylw'r Rheolwr Tîm a fydd yn ceisio datrys y mater. Os bydd y mater heb ei ddatrys ar y pwynt hwnnw, gellir uwchgyfeirio'ch cwyn i'w hadolygu gan y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chwynion sy'n gyfrifol am oruchwylio'r rheolaeth ar yr holl gwynion yn OICL. Os na fyddwch yn fodlon ar ei ymateb, gall y Prif Weithredwr adolygu penderfyniad y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chwynion ar y gŵyn. Bydd penderfyniad y Prif Weithredwr yn derfynol. Am ei fod yn gorff annibynnol, nid yw OICL yn cael ei lywodraethu gan unrhyw Ombwdsmon neu Awdurdod Ymddygiad.
- 10.5. Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar Eich rhan, dylech gysylltu ag ef ynghylch Eich pryderon yn y lle cyntaf, a bydd angen iddo gysylltu wedyn ag OICL ynghylch Eich pryderon ar Eich rhan.

Cwynion y tu allan i OICL

- 10.6. Nid yw OICL yn gyfrifol am ystyried cwynion ynghylch ymddygiad sefydliadau adrodd meddygol, Arbenigwyr Meddygol, Digolledwyr neu Gynrychiolwyr. Os oes gennych bryder ynghylch sefydliad y tu allan i OICL, dylech godi'ch cwyn yn uniongyrchol gyda'r sefydliad hwnnw.

Sefydliadau Adrodd Meddygol ac Arbenigwyr Meddygol:

- 10.7. Os hoffech wneud cwyn ynghylch yr MRO neu Arbenigwyr Meddygol, gallwch gysylltu â hwy'n uniongyrchol i gael cadarnhad o'u gweithdrefn gŵynion. Os na fyddwch yn fodlon ar yr ymateb neu os ydych yn dymuno uwchgyfeirio'r gŵyn, bydd angen ei chyfeirio i sylw MedCo. Dylech gysylltu â MedCo yn uniongyrchol i gael cadarnhad o'i weithdrefn gŵynion.

Digolledwr:

- 10.8. Os hoffech wneud cwyn ynghylch y Digolledwr, dylech gysylltu ag ef yn uniongyrchol i gael cadarnhad o'i weithdrefn gŵynion.

Cynrychiolydd:

- 10.9. Os hoffech wneud cwyn ynghylch y Cynrychiolydd, dylech gysylltu ag ef yn uniongyrchol i gael cadarnhad o'i weithdrefn gŵynion.

11. Cyfyngiadau atebolrwydd ac indemniad

- 11.1 Ac eithrio fel a nodir yn benodol yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, mae gwarantau a datganiadau pa un a ydynt yn ddatganedig neu'n oblygedig mewn statud, cyfraith gyffredin neu fel arall mewn perthynas â defnyddio'r Porth gan unrhyw Ddefnyddiwr Proffesiynol (a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) yn unol â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, yn cael eu hepgor i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith.
- 11.2 Mae pob Defnyddiwr Proffesiynol yn gyfrifol am y wybodaeth y mae ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig yn peri iddi fod ar gael drwy'r Porth ac nid yw OICL yn gwneud unrhyw ddatganiad neu warant o ran cywirdeb, cyflawnrwydd, argaeledd, addasrwydd, perchnogaeth neu ddefnyddioldeb (at ddiben penodedig neu fel arall) unrhyw wybodaeth am y Defnyddiwr Proffesiynol, ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig neu unrhyw Hawlydd neu unrhyw wybodaeth a ddarperir iddynt drwy'r Porth (gan gynnwys y Data).
- 11.3 Ni fydd OICL yn derbyn atebolrwydd am unrhyw hawliadau gan Ddefnyddiwr Proffesiynol, Defnyddiwr Awdurdodedig neu Hawlydd am iawndal neu golled sy'n deillio o gofnodion anghywir a gedwir gan y Defnyddiwr Proffesiynol, y Defnyddiwr Awdurdodedig neu'r Hawlydd. Rydych Chi, Eich Defnyddwyr Awdurdodedig ac unrhyw Hawlydd rydych yn eu cynrychioli yn gyfrifol bob amser am hysbysu OICL am unrhyw wallau neu hepgoriadau yn eich defnydd Chi neu eu defnydd hwy o'r Porth, neu am unrhyw wallau neu hepgoriadau a achosir gennych Chi neu ganddynt hwy wrth ddefnyddio'r Porth, yn syth ar ôl i Chi ddod i wybod amdanynt.
- 11.4 Mae'r Defnyddiwr Proffesiynol yn llwyr gyfrifol am ddewis arbenigwr meddygol a achredwyd gan MedCo neu ddewis MRO ar ran Hawlydd, i baratoi adroddiad meddygol mewn cysylltiad â'i Hawliad. Rhaid i bob arbenigwr meddygol ac MRO gael ei achredu'n annibynnol gan MedCo ac nid yw OICL yn gwneud unrhyw ddatganiad na gwarant ynghylch addasrwydd, ffitrwydd, ansawdd na hyfforddiant unrhyw arbenigwyr meddygol neu MROs o'r fath. Nid yw OICL yn gyfrifol am, ac ni fydd mewn unrhyw amgylchiadau yn atebol am, unrhyw weithred neu anweithred gan unrhyw arbenigwr meddygol neu MRO a ddewisir gan y Defnyddiwr Proffesiynol ar ran Hawlydd, nac am safon y gwasanaeth a ddarperir gan unrhyw arbenigwr meddygol neu MRO o'r fath wrth baratoi ei adroddiad. Unwaith y bydd y Defnyddiwr Proffesiynol wedi cael adroddiad meddygol gan arbenigwr meddygol neu MRO mewn cysylltiad â Hawliad, cyfrifoldeb y Defnyddiwr Proffesiynol yw sicrhau bod adroddiad o'r fath yn cael ei ddarparu'n brydlon i'r Digolledwr perthnasol, drwy ei lanlwytho i'r Porth gan Ddefnyddiwr Awdurdodedig. Bydd lanlwytho adroddiad meddygol i'r Porth gan Ddefnyddiwr Awdurdodedig mewn perthynas â Hawliad yn golygu cadarnhad ar ran yr Hawlydd perthnasol nad yw'r Hawlydd yn anghytuno â chanfyddiadau adroddiad meddygol o'r fath a chyfrifoldeb y Defnyddiwr Proffesiynol yw sicrhau bod yr Hawlydd perthnasol yn deall ac yn derbyn cynnwys yr adroddiad meddygol cyn iddo gael ei lanlwytho i'r Porth. Os bydd y Defnyddiwr Proffesiynol (neu unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig) yn dod i wybod bod Defnyddiwr Awdurdodedig wedi gwneud camgymeriad a'i fod wedi peri i adroddiad meddygol nad yw'n ymwneud â'r Hawliad perthnasol fod ar gael i Ddigolledwr drwy ei lanlwytho i'r Porth, rhaid i'r Defnyddiwr Awdurdodedig hysbysu OICL a'r Digolledwr perthnasol am gamgymeriad o'r fath ar unwaith.
- 11.5 Mae'r Porth yn darparu gweithrediadau penodol sy'n hwyluso'r cyfathrebu rhwng y Defnyddiwr Proffesiynol (neu'r Defnyddiwr Awdurdodedig) a'r Digolledwr perthnasol at ddibenion dilyn a setlo Hawliad. Nid yw OICL yn gyfrifol am, ac ni fydd yn atebol mewn unrhyw ffordd o dan unrhyw amgylchiadau am, unrhyw benderfyniad, gweithred neu anweithred gan unrhyw Ddigolledwr mewn perthynas ag unrhyw Hawliad. Rydych drwy

hyn yn cydnabod ac yn cytuno na fydd OICL, o dan unrhyw amgylchiadau, yn atebol o gwbl i Chi, Eich Defnyddwyr Awdurdodedig nac unrhyw Hawlydd am unrhyw symiau y cytunwyd arnynt mewn perthynas â Hawliadau sydd wedi'u setlo.

- 11.6 Os na fydd y Porth ar gael i'w ddefnyddio gan y Defnyddiwr Proffesiynol (neu unrhyw un o'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig), ni fydd y diffyg argaeledd hwnnw'n rhyddhau'r Defnyddiwr Proffesiynol (na'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) o'i rwymedigaethau o dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Cyfrifoldeb y Defnyddiwr Proffesiynol yw cytuno ar ddull gwahanol o gyfathrebu a chyfnewid Data a Data Hawliadau â'r Digolledwr perthnasol os bydd y Porth yn methu fel hyn ac ni fydd OICL yn atebol o gwbl i'r Defnyddiwr Proffesiynol, unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig, yr Hawlydd perthnasol, y Digolledwr perthnasol nac unrhyw drydydd parti mewn perthynas â methiant gan y Defnyddiwr Proffesiynol i gydymffurfio â rhwymedigaeth o'r fath.
- 11.7 Ni fydd OICL yn atebol am unrhyw ddiffygion mewn unrhyw rwydwaith, methiant uniongyrchol neu anuniongyrchol unrhyw gyflenwadau pŵer, cyfarpar, systemau Prosesu data a chyfathrebu neu gysylltiadau trosglwyddo sydd y tu allan i'w reolaeth (gan gynnwys unrhyw ganolwedd a weithredir gan unrhyw Ddefnyddiwr Proffesiynol neu Ddefnyddiwr Awdurdodedig neu drydydd parti ar ran Defnyddiwr Proffesiynol neu Ddefnyddiwr Awdurdodedig).
- 11.8 I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith a heb amharu ar unrhyw hawliau eraill sydd ar gael i OICL, rydych drwy hyn yn cytuno i indemnio OICL a'i gyfarwyddwyr, swyddogion, cyflogeion, trwyddedwyr ac asiantau ar sail ôl-Dreth rhag ac yn erbyn, ac yn cytuno i dalu ar gais, bob ac unrhyw golledion, rhwymedigaethau, iawndal, costau a threuliau (yn cynnwys ffioedd cyfreithiol ar sail indemniad llawn) a ysgwyddir gan unrhyw un ohonynt neu a ddyfernir yn eu herbyn, i'r graddau eu bod yn ganlyniad i:
- (A) camddefnyddio neu golli gennych Chi neu unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig eu ID Defnyddiwr Awdurdodedig neu eu Manylion Mynediad;
 - (B) camddefnyddio'r Porth gennych Chi neu unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig mewn unrhyw ffordd;
 - (C) torri'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn mewn unrhyw ffordd gennych Chi neu unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig;
 - (D) methiant gennych Chi neu unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig i gydymffurfio â'r Gyfraith Gymwysadwy (yn cynnwys Deddfwriaeth Diogelu Data);
 - (E) Prosesu Data Hawliadau y tu allan i'r DU gennych Chi neu unrhyw un o'ch Defnyddwyr Awdurdodedig,

ac eithrio i'r graddau y mae unrhyw atebolrwydd o'r fath yn cael ei achosi o ganlyniad i dorri'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn gan OICL neu esgeuluster y gellir ei briodoli'n llwyr i OICL.

- 11.9 Yn amodol ar Gymal 11.10, ni fydd OICL na'i gyfarwyddwyr, swyddogion, cyflogeion, trwyddedwyr ac asiantau yn atebol i unrhyw Ddefnyddiwr Proffesiynol, Defnyddiwr Awdurdodedig neu Hawlydd o dan gyfraith contractau, y gyfraith gamweddau (yn cynnwys esgeuluster neu dor dyletswydd statudol) neu fel arall am unrhyw un o'r mathau canlynol o golled neu ddifrod, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol, sy'n deillio o

ddefnyddio'r Porth neu mewn cysylltiad â'i ddefnyddio neu mewn cysylltiad fel arall â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn:

- (A) colli elw;
- (B) colli busnes;
- (C) colli data;
- (D) colli'r defnydd o gyfarpar neu broses;
- (E) colli arbedion a ragwelir;
- (F) colli amser rheoli;
- (G) colli cyfle buddsoddi neu ewyllys da;
- (H) colled sy'n ganlyniad i unrhyw ddefnydd o'r Porth sydd heb ei awdurdodi yn unol â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn;
- (I) colled sy'n codi oherwydd methiant gennych Chi i uwchraddio a chynnal Eich System a'i chadw'n gyson â gofynion yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn; neu
- (J) unrhyw golled neu ddifrod anuniongyrchol, arbennig neu ganlyniadol ym mha ffordd bynnag y'i hachoswyd hyd yn oed os yw OICL wedi'i hysbysu am y posibilrwydd o golledion neu ddifrod o'r fath ymlaen llaw.

11.10 Nid yw OICL yn eithrio nac yn cyfyngu ei atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol sy'n codi o ganlyniad i'w esgeuluster neu dwyll (yn cynnwys camliwio twyllodrus) neu i'r graddau na ellir eithrio atebolrwydd o'r fath na'i gyfyngu fel arall o dan y Gyfraith Gymwysadwy.

11.11 Yn amodol ar Gymal 11.10, ni fydd uchafswm atebolrwydd cyfanredol OICL o dan neu mewn cysylltiad â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn mewn perthynas â phob hawliad gan y Defnyddiwr Proffesiynol (neu'r Hawlydd perthnasol a gynrychiolir gan y Defnyddiwr Proffesiynol) sy'n arwain at atebolrwydd gan OICL (boed am dor contract, esgeuluster neu gamwedd arall neu dor dyletswydd statudol neu fel arall) sy'n codi mewn cysylltiad â Hawliad yn fwy na £25,000 mewn perthynas â phob Hawliad o'r fath.

12. Atal gan OICL

12.1 Yn amodol ar Gymal 12.2, os yw OICL yn gwybod neu os oes ganddo sail resymol dros amau bod y Defnyddiwr Proffesiynol (neu unrhyw un o'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) wedi torri neu'n bwriadu torri'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, gall OICL, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, atal defnydd y Defnyddiwr Proffesiynol o'r Porth a'r Gwasanaethau neu unrhyw un neu ragor o Gyfrifon Defnyddwyr Awdurdodedig ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig:

- (A) ar unwaith heb hysbysu'r Defnyddiwr Proffesiynol neu ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig, pan fo angen rhesymol am ataliad o'r fath er mwyn diogelu'r Porth a'r Gwasanaethau;

- (B) os na ellir cywiro'r toriad neu os yw'r toriad mor ddifrifol neu arwyddocaol fel ei fod yn cyfiawnhau, gan weithredu'n rhesymol, ei atal ar unwaith ar yr amod y bydd OICL yn hysbysu'r Defnyddiwr Proffesiynol am yr ataliad hwnnw cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedi hynny; neu
 - (C) os bydd OICL yn hysbysu'r Defnyddiwr Proffesiynol mewn ysgrifen ei fod yn gwybod neu fod ganddo sail resymol dros amau bod y Defnyddiwr Proffesiynol (neu unrhyw un o'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) wedi torri neu'n bwriadu torri'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ac yn gofyn am gywiro'r toriad o fewn cyfnod penodedig ac os na fydd y Defnyddiwr Proffesiynol yn cywiro'r toriad (neu'n sicrhau bod y Defnyddiwr Awdurdodedig perthnasol yn cywiro'r toriad) o fewn y cyfnod hwnnw.
- 12.2 Gall OICL atal Cyfrifon Defnyddwyr Awdurdodedig y Defnyddwyr Awdurdodedig yn unol â Chymal 12.1 hyd nes bydd trefniadau wedi'u gwneud gan y Defnyddiwr Proffesiynol er boddhad rhesymol i OICL ar gyfer cywiro'r toriad gwirioneddol neu dybiedig perthnasol.

13. Terfynu gan OICL

- 13.1 Gall OICL derfynu unrhyw gytundeb sy'n ymgorffori'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn:
- (A) ar unwaith ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Defnyddiwr Proffesiynol, os terfynir y ddarpariaeth o'r Porth a'r Gwasanaethau gan OICL am unrhyw reswm o gwbl;
 - (B) drwy roi rhybudd ysgrifenedig o dri (3) mis calendr i'r Defnyddiwr Proffesiynol ymlaen llaw;
 - (C) ar unwaith os bydd unrhyw newid yn y Gyfraith Gymwysadwy neu orchymyn llys neu orchymyn llys a fygythir neu achos neu achos a fygythir sy'n amharu'n sylweddol ar allu OICL i ddarparu'r trwyddedau, Gwasanaethau neu fynediad a ddisgrifir yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn; a
 - (D) ar unwaith ar ôl rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Defnyddiwr Proffesiynol os bydd y Defnyddiwr Proffesiynol (neu unrhyw un o'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) yn torri ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn mewn ffordd berthnasol a bod y Defnyddiwr Proffesiynol wedi methu (yn achos toriad y gellir ei gywiro) â chywiro'r toriad o fewn 14 diwrnod ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig gan OICL yn nodi natur y toriad, gan ofyn am ei gywiro a nodi y byddai methu â chywiro'r toriad yn gallu arwain at derfynu.
- 13.2 Gall OICL ddileu Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig penodol os nad yw'r Defnyddiwr Awdurdodedig perthnasol wedi cael mynediad neu gymryd unrhyw gamau o fewn y Porth am gyfnod o fwy na 12 mis ac nad oes unrhyw Hawliadau agored wedi'u priodoli i'r Cyfrif Defnyddiwr Awdurdodedig hwnnw.

14. Terfynu gan Ddefnyddwyr Proffesiynol

- 14.1 Gall y Defnyddiwr Proffesiynol derfynu ei ddefnydd ef (a defnydd ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig) o'r Porth ar unwaith drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i OICL drwy'r e-bost yn unig yn unol â Chymal 19.2(B).

- 14.2 Os cyflwynir hysbysiad o'r fath, ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw ddata (yn cynnwys Data Hawliadau) sydd eisoes wedi'u cyflwyno drwy'r Porth gan Ddefnyddwyr Awdurdodedig y Defnyddiwr Proffesiynol.
- 14.3 Pan derfynir y defnydd, rhaid i'r Defnyddiwr Proffesiynol sicrhau bod ei holl Ddefnyddwyr Awdurdodedig yn rhoi'r gorau i bob mynediad pellach i'r Porth ac at y Gwasanaethau.

15. Canlyniadau terfynu

- 15.1 Ar ôl terfynu neu ddod â chytundeb i ben sy'n ymgorffori'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn:
- (A) ni fydd hawl wedyn gan y Defnyddiwr Proffesiynol (a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) i gael mynediad i'r Porth neu at y Gwasanaethau;
 - (B) rhaid i OICL barhau i gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas ag unrhyw Ddata Hawliadau y mae'n eu cadw ar y sail a ddisgrifir ac at y dibenion a amlinellir yn Hysbysiad Preifatrwydd yr Hawlydd a Hysbysiad Preifatrwydd y Defnyddiwr Proffesiynol;
 - (C) rhaid i OICL a'r Defnyddiwr Proffesiynol gydweithredu'n ddidwyll i gytuno a chydymffurfio â chynllun ymadael sy'n nodi'r trefniadau ymarferol sy'n angenrheidiol ac yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i gau Cyfrifon Defnyddiwr Awdurdodedig Defnyddwyr Awdurdodedig y Defnyddiwr Proffesiynol (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â hynny o fynediad cyfyngedig sy'n angenrheidiol i lawrlwytho gwybodaeth berthnasol yn y Porth sydd ei hangen i ddilyn unrhyw Hawliad(au) ar ran Hawlwyr a gynrychiolir gan y Defnyddiwr Proffesiynol) er mwyn galluogi'r Defnyddiwr Proffesiynol i ddilyn Hawliad(au) o'r fath yn unol â'r Protocol Cyn Gweithredu heblaw drwy'r Porth;
 - (D) ni fydd effaith ar yr hawliau, rhwymedïau, rhwymedigaethau ac atebolrwydd sydd gan y Defnyddiwr Proffesiynol ac OICL wrth derfynu, yn cynnwys yr hawl i hawlio iawndal mewn perthynas ag unrhyw dorri ar gytundeb sy'n ymgorffori'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn a oedd yn bodoli ar neu cyn y dyddiad terfynu; ac
 - (E) bydd cymalau o'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn sy'n cael effaith ddatganedig neu oblygedig ar ôl terfynu yn parhau mewn grym.

16. Force Majeure

Ni fydd OICL yn atebol i'r Defnyddiwr Proffesiynol am unrhyw fethiant neu oedi wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn sy'n ganlyniad i unrhyw achos y tu hwnt i reolaeth resymol OICL (wedi i OICL ymdrechu'n rhesymol i ddileu neu osgoi achos o'r fath) gan gynnwys, heb gyfyngiad, streiciau, anghydfodau llafur, trychinebau naturiol, rhyfel, terfysg, fandaliaeth, terfysgaeth, anhrefn sifil, difrod maleisus, cydymffurfio ag unrhyw gyfraith neu orchymyn llywodraethol, rheol, rheoliad neu gyfarwyddyd neu unrhyw weithdrefnau brys hollbwysig, tân, llifogydd a stormydd.

17. Aseinio ac Is-gontractio

- 17.1 Ni fydd y Defnyddiwr Proffesiynol (a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) yn aseinio, yn is-gontractio nac yn trosglwyddo unrhyw un o'i hawliau neu rwymedigaethau o dan yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn heb gael cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan OICL, a'r cydsyniad hwnnw heb ei ddal yn ôl na'i ohirio'n afresymol.
- 17.2 Gall OICL ar unrhyw adeg aseinio, trosglwyddo, amnewid, morgeisio, arwystlo, datgan ymddiriedaeth neu ddelio mewn unrhyw ffordd arall ag unrhyw un neu'r cyfan o'i hawliau, rhwymedïau, pwerau, dyletswyddau a rhwymedigaethau o dan yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, a gall is-gontractio neu ddirprwyo mewn unrhyw ffordd unrhyw un neu'r cyfan o'i rwymedigaethau o dan yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, i unrhyw drydydd parti, heb gael cydsyniad gan y Defnyddiwr Proffesiynol.

18. Amrywiadau

- 18.1 Gall OICL newid yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn o bryd i'w gilydd. Hysbysir y Defnyddiwr Proffesiynol a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig am newidiadau o'r fath drwy Wefan OICL ac ar yr achlysur nesaf y bydd ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig yn mewngofnodi i'r Porth. Tybir bod parhad yn y defnydd o'r Porth gan unrhyw un o Ddefnyddwyr Awdurdodedig y Defnyddiwr Proffesiynol yn golygu bod y Defnyddiwr Proffesiynol yn derbyn yr Amodau Defnydd Cyffredinol diwygiedig hynny.
- 18.2 Rhaid i OICL roi hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Defnyddiwr Proffesiynol (drwy gyhoeddiadau ar Wefan OICL) am unrhyw newidiadau perthnasol yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol neu'r Porth neu'r Gwasanaethau y mae OICL yn tybio ei fod yn ddigonol i ganiatáu i'r Defnyddiwr Proffesiynol weithredu unrhyw newidiadau sydd eu hangen i sicrhau ei fod ef (a'i Ddefnyddwyr Awdurdodedig) yn cydymffurfio.

19. Hysbysiadau

- 19.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad sydd i'w ddanfôn gan OICL at Ddefnyddiwr Proffesiynol o dan neu mewn cysylltiad â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn fod yn ysgrifenedig a rhaid:
- (A) ei anfon drwy'r e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd gan y Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol wrth Gofrestru (neu unrhyw gyfeiriad e-bost arall a all fod yn gysylltiedig â Defnyddiwr Gweinyddol o bryd i'w gilydd, yn dilyn diweddarau'r wybodaeth gysylltu hon gan y Defnyddiwr Gweinyddol); neu
 - (B) ei ddarparu i'r Defnyddiwr Gweinyddol mewn ffenestr naid neu sgrin clicio drwodd y tro nesaf y bydd yn mewngofnodi i'r Porth.
- 19.2 Rhaid i unrhyw hysbysiad sydd i'w ddanfôn i OICL o dan neu mewn cysylltiad â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn fod yn ysgrifenedig a rhaid:
- (A) ei ddanfôn â llaw neu ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf rhagdaledig neu wasanaeth danfon Diwrnod Busnes Nesaf arall at Ysgrifennydd y Cwmni, Official Injury Claim Limited, Linford Wood House, 6-12 Capital Drive, Milton Keynes, MK14 6XT neu unrhyw gyfeiriad arall y gall OICL hysbysu Defnyddwyr Proffesiynol amdano o bryd i'w gilydd; neu

- (B) ei anfon drwy'r e-bost i companysecretary@mib.org.uk neu unrhyw gyfeiriad e-bost arall y gall OICL hysbysu Defnyddwyr Proffesiynol amdano o bryd i'w gilydd.

19.3 Tybir y bydd unrhyw hysbysiad wedi'i dderbyn:

- (A) os caiff ei ddanfôn â llaw, ar yr adeg y gadewir yr hysbysiad yn y cyfeiriad priodol;
- (B) os caiff ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf rhagdaledig, pan ddaw dau ddiwrnod clir i ben ar ôl yr amser postio;
- (C) os caiff ei anfon drwy'r e-bost, ar adeg ei drosglwyddo, neu, os yw'r amser hwn y tu allan i Oriau Busnes, rhaid ei ohirio nes bydd Oriau Busnes yn aildechrau; neu
- (D) os caiff ei ddarparu i Ddefnyddiwr Gweinyddol mewn ffenestr naid neu sgrin clicio drwodd, wrth i'r Defnyddiwr Gweinyddol fewngofnodi i'r Porth.

20. Darpariaethau cyffredinol

- 20.1 Ni fydd unrhyw ymddygiad neu oedi gan OICL wrth arfer hawl neu rwymedi yn cael ei gymryd fel hepgoriad neu amrywiad o unrhyw un o'i hawliau neu'i rwymedïau oni bai fod OICL yn hepgor neu'n amrywio hawl o'r fath mewn ysgrifen. Ni fydd unrhyw hepgoriad nac amrywiad ar achlysur penodol yn gweithredu fel hepgoriad neu amrywiad o unrhyw hawliau neu rwymedïau mewn perthynas ag unrhyw fater arall.
- 20.2 Os delir bod unrhyw un o ddarpariaethau'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n amhosibl ei gorfodi am unrhyw reswm, rhaid neilltuo darpariaeth o'r fath a bydd gweddill y darpariaethau yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn parhau mewn grym fel pe baent wedi'u gweithredu a'r ddarpariaeth annilys wedi'i dileu.
- 20.3 Nid oes dim yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn a fydd yn rhoi neu sydd â'r bwriad o roi unrhyw fudd i unrhyw drydydd parti neu'r hawl i orfodi unrhyw delerau sydd yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn at ddibenion Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.
- 20.4 Nid oes dim yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti na'r llall dorri'r Gyfraith Gymwysadwy.
- 20.5 Nid oes dim yn yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn y dylid ei ddehongli fel rhywbeth sy'n dangos neu'n arwain at gyd-fenter neu bartneriaeth.
- 20.6 Yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn ac unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddynt yw'r cytundeb cyfan rhwng y partiön ac maent yn disodli'r holl ddrafftiau, cytundebau, trefniadau a chyd-ddealltwriaethau blaenorol rhwng y partiön, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n ymwneud â'i bwnc. Mae pob parti'n cydnabod, wrth gytuno i'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, nad yw'n dibynnu ar unrhyw ddatganiad, sylw, sicrwydd neu warant (boed hynny wedi'i wneud yn anfwriadol neu'n esgeulus), ac eithrio fel a nodir yn benodol yma.

21. Cyfraith ac awdurdodaeth lywodraethol

Bydd yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr ac yn cael eu dehongli yn unol â hynny, a bydd gan lysoedd Lloegr awdurdodaeth unigryw i setlo unrhyw anghydfod sy'n codi o dan y telerau hyn.

Atodlen 1

Telerau i Ddefnyddwyr A2A

Mae'r telerau ac amodau sydd yn yr Atodlen hon yn gymwys i unrhyw fynediad a geir mewn perthynas ag A2A gan Ddefnyddwyr Awdurdodedig (ar ran y Defnyddiwr Proffesiynol) i'r Porth ac maent yn gymwys i fynediad o'r fath drwy A2A yn ychwanegol i'r telerau ym mhen blaen yr Amodau Defnydd Cyffredinol.

1. Diffiniadau

I ddibenion yr Atodlen hon, mae ystyrion penodol i'r geiriau ac ymadroddion canlynol sy'n dechrau â phriflythrennau, fel a ganlyn:

ystyr “API”	yw manyleb rhyngwyneb defnyddiwr y rhaglen a gyhoeddwyd ar gyfer y Porth sy'n cael ei dyroddi gan OICL i'r Defnyddiwr Proffesiynol o bryd i'w gilydd, ar unrhyw ffurf a benderfynir gan OICL; ac;
mae i “Newid”	yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 4.2 isod; ac;
ystyr “Rhyngwyneb Defnyddiwr”	yw rhyngwyneb defnyddiwr pwrpasol y Defnyddiwr Proffesiynol sy'n caniatáu i'w Ddefnyddwyr Awdurdodedig gysylltu â'r API.

2. Cadarnhad

Rydych yn cytuno nad oes unrhyw hawliau gennych Chi na'ch Defnyddwyr Awdurdodedig, heblaw'r rheini sydd wedi'u disgrifio ym mharagraff 3 o'r Atodlen hon, i ddefnyddio'r API ac rydych yn cytuno'n benodol i beidio ag addasu, cyfieithu, ôl-beiriannu, datgrynhoi neu ddatgymalu'r cod ffynhonnell a/neu'r cod gwrthrych sy'n ffurfio'r Porth.

3. Caniatâd i gael mynediad i'r API a defnyddio'r Rhyngwyneb Defnyddiwr

Yn ddarostyngedig i'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn, mae OICL yn rhoi i'r Defnyddiwr Proffesiynol drwydded ddirymadwy nad yw'n unigryw ac na ellir ei throsglwyddo (heb yr hawl i is-drwyddedu'r hawl hon) i lawrlwytho neu gael yr API mewn ffordd arall a defnyddio'r Rhyngwyneb Defnyddiwr i gael mynediad i'r Porth at unrhyw un neu bob un o'r dibenion canlynol:

- (A) datblygu a rhoi prawf ar y Rhyngwyneb Defnyddiwr; a
- (B) cysylltu ei Ddefnyddwyr Awdurdodedig â'r Porth drwy'r Rhyngwyneb Defnyddiwr,

ar yr amod, er hynny, fod OICL yn cadw'r hawl i ddirymu'r trwyddedau yn is-baragraffau (A) a (B) os bydd y Defnyddiwr Proffesiynol neu unrhyw Ddefnyddiwr Awdurdodedig yn methu â chydymffurfio â'r Amodau Defnydd Cyffredinol hyn.

4. Eich System

- 4.1 Oddi ar y dyddiad y mae'r Defnyddiwr Gweinyddol cychwynnol yn cwblhau'r broses Cofrestru ac yn cytuno ar Eich rhan fod yr Amodau Defnydd Cyffredinol hyn yn Eich

rhwymo Chi a'ch holl Ddefnyddwyr Awdurdodedig yn gyfreithiol, rydych yn datgan ac yn gwarantu bod y Rhyngwyneb Defnyddiwr a ddatblygwyd gennych yn un sy'n cydweddu â'r API. Ar sail datganiad a gwarant o'r fath, mae OICL yn rhoi caniatâd i Chi ddefnyddio'r Rhyngwyneb Defnyddiwr i gysylltu â'r Porth ar y telerau trwyddedu sydd yn yr Atodlen hon yn ddarostyngedig i weddill y darpariaethau yn y paragraff 4 hwn. Rydych yn gyfrifol am sicrhau'n barhaus fod Eich System yn cydweddu â'r Porth ac unrhyw fanyleb dechnegol y gall OICL ei rhoi i Chi mewn perthynas â gallu systemau i ryngweithredu er mwyn cael a chadw cymeradwyaeth i'ch System gan OICL.

- 4.2 Rydych yn cytuno ac yn deall y bydd y gallu gan OICL, ei drwyddedwyr neu bersonau sy'n gweithio ar ei ran i newid, addasu, gwella neu amnewid o bryd i'w gilydd y Porth, yr API neu systemau cysylltiedig eraill mewn ffordd a fydd yn effeithio ar Eich Rhyngwyneb Defnyddiwr (pob un yn "**Newid**"). Mae OICL yn cytuno i ymdrechu'n rhesymol i roi rhybudd rhesymol i Chi am Newidiadau o'r fath. Chi fydd yn llwyr gyfrifol ac yn ysgwyddo'r holl gostau am wneud unrhyw newidiadau yn Eich Rhyngwyneb Defnyddiwr a fydd eu hangen o ganlyniad i'r Newidiadau hyn. Rydych yn cytuno i weithredu unrhyw newidiadau sy'n ofynnol ac sydd wedi'u disgrifio mewn hysbysiad ysgrifenedig gan OICL yn y modd ac o fewn y terfynau amser y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw hysbysiad o'r fath ac yn unol ag unrhyw ofynion o ran profion a chydymffurfiaeth y gall OICL eu pennu o bryd i'w gilydd.
- 4.3 Rhaid i'r Defnyddiwr Proffesiynol sicrhau bod ei gamau i ddatblygu'r API yn gyson bob amser ag unrhyw fanylebau technegol a gyhoeddir gan OICL ar Wefan OICL (y gellir eu diwygio neu eu diweddarau o bryd i'w gilydd). Mae OICL yn cadw'r hawl i atal mynediad gan Eich Defnyddwyr Awdurdodedig i'r Porth drwy A2A os ceir diffyg cydymffurfio â manylebau technegol o'r fath a (heb leihau effaith yr hawl hon) gall ofyn i Chi gymryd camau i gywiro'ch camau datblygu i'w gwneud yn gyson â'r manylebau technegol.
- 4.4 Bydd OICL o bryd i'w gilydd yn cyhoeddi canllawiau hyfforddi, manylebau technegol ar gyfer yr API a gwybodaeth berthnasol arall ar Wefan OICL. Rhaid i Chi ymgyswgu â'r dogfennau hyn a sicrhau bod Eich defnydd o'r system yn cydymffurfio'n llwyr bob amser â dogfennau o'r fath. Chi sy'n gyfrifol am edrych ar Wefan OICL am gyhoeddiadau a wnaed gan OICL mewn cysylltiad â newidiadau mewn dogfennau o'r fath.